Cofnodion cyfarfod is-bwyllgor y Cabinet ar drefniadau pontio'r UE
5 Rhagfyr 2018

Yn bresennol:

- Mark Drakeford AC (Cadeirydd Dros Dro)
- Ken Skates AC
- Alun Davies AC
- Lesley Griffiths AC
- Kirsty Williams AC
- Vaughan Gething AC
- Jeremy Miles AC
- Rebecca Evans AC

- Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog
- Carys Evans, Prif Ysgrifennydd Preifat y Prif Weinidog
- Piers Bisson, Cyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Diane Dunning, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
- Simon Brindle, Cyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd - Polisi
- Robert Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd - Deddfwriaeth
- Gareth Williams, Cynghorydd Arbennig
- Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
- Alex Rawlin, Cynghorydd Arbennig
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau (cofnodion)
- Sophie Jones, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Liz Lalley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd - Parodrwydd
- Ed Sherriff, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd - Negodiadau
- Peredur John, Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Leon Griffiths, Trefniadau Pontio Ewropeaidd - Cyfathrebu
- Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Economaidd (Eitem 3A)
- Ifan Evans, Cyfarwyddwr, Technoleg a Thrawsnewid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Eitem 3B)

Ymddiheuriadau:

- Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog

Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

1.1. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. Nodwyd y byddai'r cam gweithredu a oedd heb ei gyflawni yn cael ei gwblhau'n fuan.

Eitem 2: Diweddariad ar Lafar ar y Datblygiadau

2.1 Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a gadeiriodd y cyfarfod, gan nad oedd y Prif Weinidog ar gael. Rhoddwyd crynodeb o'r datblygiadau niferus a fu ers y cyfarfod diwethaf ar 7 Tachwedd, sef materion a oedd yn berthnasol i'r UE, y DU a Chymru.

2.2 Ar 13 a 19 Hydref, cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE). Bu'r cyfarfod ar 19 Tachwedd yn canolbwyntio ar y Cytundeb Ymadael drafft a'r Datganiad Gwleidyddol Amlinellol, a phwysleisiwyd bod cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig yn y broses hon yn angenrheidiol yn gyfansoddiadol. Byddai cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) yn cael ei gynnal ar 13 Rhagfyr.

2.3 Cynhaliwyd chweched cyfarfod Fforwm y Gweinidogion ar 3 Rhagfyr, ac roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, a'r Gweinidog Tai ac Adfywio yn bresennol. Bu'r cyfarfod yn canolbwyntio ar gynlluniau Llywodraeth y DU o ran gwasanaethau fel rhan o berthynas y dyfodol, a'r cynnydd a wnaed yn y maes hwn, yn ogystal â gwasanaethau ariannol, ynni a thrafnidiaeth.

2.4 Roedd rhaglen waith sylweddol wedi bod yn mynd rhagddi ar gyfer rhoi cydsyniad i Offerynnau Statudol y DU a fyddai'n berthnasol i Gymru.

2.5 Yn olaf, nodwyd y byddai Dyfarniad y Goruchaf Lys mewn perthynas â Bil Parhad yr Alban yn cael ei wneud ar 13 Rhagfyr.

2.6 Nododd yr Is-bwyllgor y diweddariad.

Eitem 3A: Parodrwydd: yr Economi a Thrafnidiaeth

3.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth y papur, a oedd yn gwahodd yr Is-bwyllgor i nodi'r gwaith y byddai angen ei gyflawni i baratoi ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE, gan ganolbwyntio'n benodol ar y camau gweithredu a fyddai'n sicrhau parodrwydd, a'r heriau sy'n wynebu portffolio yr Economi a Thrafnidiaeth.

3.2 Trafododd yr Is-bwyllgor Borthol Brexit a ddarperir gan Fusnes Cymru, ac a gafodd ei lansio fel adnodd allweddol i fusnesau. Roedd y porthol wedi cyfuno gwybodaeth ac wedi rhoi cyngor gwerthfawr i fusnesau mewn meysydd megis allforio, cynllunio'r gweithlu, a chyllid. Cytunwyd bod y porthol wedi darparu adnodd ymarferol a chynhwysfawr.

3.3 Nododd yr Is-bwyllgor y pryderon ynghylch porthladdoedd a thrafnidiaeth, yn enwedig Caergybi, a'r effeithiau ar yr A55.

3.4 Nododd yr Is-bwyllgor y papur.

Eitem 3B: Paratoadau ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

3.5 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y papur, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am elfennau allweddol y gwaith o baratoi ar gyfer Brexit sy'n cael ei gyflawni gan y GIG a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

3.6 O ran parodrwydd gweithredol, byddai sefydliadau yng Nghymru yn rhan o ddull gweithredu a fyddai ar waith ar draws y DU gyfan i sicrhau parhad y cyflenwad o feddyginiaethau.

3.7 Nododd yr Is-bwyllgor y papur.

Eitem 4: Unrhyw Fater Arall

Papur i'w nodi: Goruchwyliaeth o Barodrwydd Llywodraeth Leol ar gyfer Trefniadau Pontio'r UE

4.1 Nododd yr Is-bwyllgor y papurau.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
Rhagfyr 2018